



At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
Cymunedau

Dyddiad: Dydd Gwener, 17 Mai
2013

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 23 MAI 2013** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

RHAN 1 – CAIFF Y WASG A'R CYHOEDD EU GWAHODD I FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 PENODI IS-GADEIRYDD

Penodi Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2013/14

3 DATGAN CYSYLLTIAD

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu gydag unrhyw fater a nodwyd y dylid eu hystyried yn y cyfarfod hwn.

4 MATERION BRYN FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd am eitemau y mae'r Cadeirydd yn credu y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5 COFNODION (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2013 (mae copi ynghlwm).

6 CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL (Tudalennau 13 - 22)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Adfywio Strategol (mae copi ynghlwm) sy'n amlinellu perfformiad y Cyngor hyd yma o ran gweithredu ei gynlluniau tref gan ofyn i aelodau nodi unrhyw lithriadau a champau i wella'r gwaith gweithredu er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i ddod yn nes at ei gymunedau.

9.40am

7 AILSTRWYTHURO'R GWASANAETHAU ADFYWIO, CYMORTH I FUSNESAU A THWRISTIAETH (Tudalennau 23 - 38)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Tai a Chymunedau (mae copi ynghlwm) sy'n amlinellu'r rhesymeg a'r broses ar gyfer ailstrwythuro'r Gwasanaethau. Mae'r adroddiad yn gofyn am farn yr aelodau am eu disgwyliadau a'u dyheadau ar gyfer y Gwasanaeth a'i waith wrth gefnogi'r broses o wireddu blaenoriaethau'r Cyngor o ran yr economi a thai.

10.10am

8 ADOLYGU'R STRATEGAETH TAI LLEOL – SIR DDINBYCH (Tudalennau 39 - 56)

Ystyried adroddiad (mae copi ynghlwm) gan yr Uwch Swyddog – Strategaeth a Phartneriaethau sy'n amlinellu'r cynnydd hyd yma o ran adolygu'r Strategaeth Tai Leol a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr ac mae'n gofyn am gyfraniad aelodau i'r Strategaeth.

10.40am

EGWYL

9 ADOLYGIAD O WASANAETHAU DYDD YN YNG NGOGLEDD SIR DDINBYCH (Tudalennau 57 - 72)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth: Ardal y De (mae copi ynghlwm) sy'n gofyn i'r Pwyllgor ystyried y cynigion diwygiedig i ailfodelu gofal dydd i bobl hŷn yng ngogledd y Sir, cyn i'r cynigion gael eu cyflwyno i'r Cabinet.

11.10am

10 GRŴP TASG A GORFFEN ADOLYGU BWYD (Tudalennau 73 - 90)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (mae copi ynghlwm) sy'n cyflwyno canfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i adolygu polisiau a gweithdrefnau'r Cyngor o ran caffael, rheoleiddio a rheoli bwyd yn gywir yn sgil y scandal cig ceffyl. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried argymhellion y Grŵp cyn eu cyflwyno i'r Cabinet.

11.40am

11 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 91-112)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (mae copi ynghlwm) sy'n gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor ac sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am faterion perthnasol.

12.15pm

12 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Cael unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor am amryw Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor

12.30pm

AELODAETH

Y Cynghorwyr

James Davies
Peter Arnold Evans
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Rhys Hughes
Win Mullen-James

Bob Murray
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Huw Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 18 Ebrill 2013 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Rhys Hughes, Win Mullen-James, Bob Murray, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a/ac Huw Williams (Is-Gadeirydd)

Arsyllwyr: Y Cyngorwyr Meirick Lloyd Davies a Huw Jones

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cwsmeriaid (HW), Rheolwr Y Rhyl yn Symud Ymlaen (TB), Rheolwr Ffyrdd Egniol o Fyw (RR), Rheolwr Rhaglen Chwaraeon a Gweithgareddau Corfforol (SB), Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol (GW), Swyddog Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (VSM), Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd (EJ), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorwyr James Davies a Carys Guy

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau cysylltiad personol na rhagfarnol.

3 MATERION BRYG A GYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni nodwyd unrhyw faterion bryg.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2013.

Materion yn Codi – Tudalen 2, Eitem Rhif 4 Cofnodion: Materion Graeanu – Dywedodd y Cydlynnydd Diogelwch bod yr eitem hon wedi ei gosod ar y rhaglen ar gyfer Grŵp Ardal Aelodau Dyffryn Dyfrdwy ar 29 Ebrill lle byddai eglurhad yn cael ei roi fel y gofynnwyd.

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2013 fel cofnod cywir.

5 GWYBODAETH DDIWEDDARAF Y RHYL YN SYMUD YMLAEN

Cyflwynodd Rheolwr Y Rhyl yn Symud Ymlaen (RGFM) adroddiad (oedd wedi ei gylchredeg yn flaenorol) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar Strategaeth Adfywio Y Rhyl yn Symud Ymlaen (RGF). Roedd y strategaeth yn cynnwys y pedair ffrwd waith a ganlyn -

- Ardal Adfywio Gorllewin Y Rhyl
- Canol y Dref
- Glan y Môr a Thwristiaeth
- Byw a Gweithio yn Y Rhyl

Rhoddodd yr RGFM esboniad pellach ar bob un o'r ffrydiau gwaith gan roi crynodeb o'r prif nodau ac amcanion ar gyfer y meysydd penodol; cynnydd i gyflawni'r targedau hynny, ac ystyriaeth i'r dyfodol. Ymatebodd i nifer o faterion a godwyd gan aelodau wrth drafod eu hadroddiad diweddarau diwethaf.

Holodd yr aelodau'r RGFM ynglŷn â chynnydd mewn prosiectau unigol a gofynnwyd am sicrwydd ynglŷn â chanlyniadau i'r dyfodol ar gyfer datblygiadau penodol. Ymatebodd fel a ganlyn -

- eglurodd y diffyg cynnydd wrth ddatblygu safle Ocean Plaza oherwydd materion yn ymwneud â chyflenwad trydan a risg llifogydd
- cadarnhaodd y bydd y gwaith o ddymchwel yr Honey Club yn digwydd yn fuan iawn ar ôl cwblhau mater cytundebol sydd angen ei ddatrys
- bydd yr ymchwiliad cyhoeddus i'r gorchymyn prynu gorfodol ar eiddo yng Ngorllewin Y Rhyl yn dechrau ym mis Mai a gobeithiwyd y byddai ail gam o ddymchwel i greu gofod gwyrdd yn cael ei gwblhau ddiwedd mis Mai
- disgwyliwyd cynlluniau diwygiedig ar gyfer cam nesaf y gwaith amddiffyn arfordirol er mwyn asesu'r posibilrwydd o adleoli'r Parc Sglefrio i'r ardal honno
- cadarnhawyd fod gorchymyn pryniant gorfodol wedi ei wneud ar gyfer yr arcêd oedd wedi llosgi i lawr ar y promenâd ac roedd ymchwiliad cyhoeddus wedi ei drefnu at fis Mehefin ac roedd trafodaethau yn parhau i gaffael yr eiddo
- rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar ddyfodol yr Heulfan a'i chyflwr presennol a deialog rhwng y Cyngor a Clwyd Leisure Limited yn y cyswllt hwnnw; gobeithiwyd y byddai'r Heulfan yn parhau i weithredu gyhyd â phosibl nes y bydd cynigion newydd yn cael eu datblygu; roeddynt yn dal i aros am gadarnhad ynglŷn â dyddiad agor diwygiedig tymor 2013.

Trafododd aelodau eu pryderon ynglŷn â chanol y dref ac effaith gwerthu ar-lein; colli siopau yn gyffredinol gan gynnwys dau fanwerthwr blaenllaw i ddatblygiad manwerthu newydd Prestatyn, ac roeddynt yn pryderu nad oedd amcanion wedi'u datblygu a'u cytuno arnynt i fynd i'r afael â'r materion hyn. Gofynnodd y pwyllgor am sicrwydd fod cynlluniau'n cael eu datblygu i gefnogi a denu busnes ac amlygu'r angen i ddenu'r math cywir o fusnes i wella'r dref ac yn ychwanegu at y ddarpariaeth bresennol a sicrhau parhad a chynladwyedd y busnesau. Cadarnhaodd yr RGFM yr angen i ddatblygu strategaeth adfywio gydynol mor fuan â phosibl ac adroddodd ar ystod o gynlluniau oedd yn cael eu hystyried gan gynnwys gostwng trethi busnes, adolygu parcio a gwelliannau i Farchnad Y Rhyl.

Cyfeiriodd at ariannu posibl yn y dyfodol o Fframwaith Adfywio Newydd Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion o'r fath yn y dref. Amlygodd y pwyllgor bod y problemau sy'n wynebu canol tref Y Rhyl yn cael eu haildrodd ar draws y sir a chyfeiriodd y Cadeirydd at ei bresenoldeb mewn Gweithdy Uchelgais Economaidd ar y diwrnod cynt pan drafodwyd yr un materion, a dywedodd fod gwaith hefyd yn cael ei gyflawni yn y fforwm hwnnw i fynd i'r afael â nhw. Cyfeiriodd y Cynghorydd Bob Murray at effaith niweidiol ar Stryd Fawr Prestatyn ers i'r parc manwerthu newydd agor a dywedodd bod gwaith hefyd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem honno.

Amlygwyd hefyd bwysigrwydd addysg fel rhan o'r strategaeth byw a gweithio a chyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cwsmeriaid at effaith ysgolion da ac addysg o ansawdd ar yr economi. Ymatebodd i gwestiynau ynglŷn â chyflwr gwael hanesyddol adeilad Ysgol Uwchradd Y Rhyl a'r cynlluniau i ddatblygu adeilad ysgol newydd a oedd yn symud yn eu blaen yn dda. Ychwanegodd fod ansawdd yr addysg uwchradd a ddarparwyd yn ardal Y Rhyl wedi gwella.

Yn olaf, trafododd aelodau fynediad ffyrdd i'r dref a chyfeiriodd yr RGFM at y manau croesi cyfyngedig o ganlyniad i'r rheilffordd. Roedd cost creu ffordd fynediad newydd yn rhy uchel ond roedd dulliau eraill o reoli traffig yn cael eu hystyried er mwyn lleddfu tagfeydd a chynorthwyo llif traffig.

I gloi, teimlai'r Cadeirydd y byddai rhinwedd i gynhyrchu un ddogfen strategol cyffredinol yn rhoi manylion am weledigaeth ar gyfer y Rhyl a chytunwyd i dderbyn y ddogfen hon gyda'r adroddiad cynnydd nesaf. Amlygodd hefyd yr angen i ddatblygu amcanion ar gyfer Canol y Dref ac elfennau Byw a Gweithio fel mater brys.

Canmolodd y pwyllgor yr RGFM ar ei waith a llwyddiannau hyd yn hyn o ran gweithredu strategaeth adfywio'r Rhyl.

PENDERFYNWYD –

- (a) *dylid derbyn a nodi'r adroddiad cynnydd ar gyflwyno Strategaeth Adfywio Y Rhyl yn Symud Ymlaen, a*
- (b) *dylai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad cynnydd pellach ym mis Gorffennaf a fyddai'n cynnwys dogfen strategol gyffredinol yn rhoi manylion y weledigaeth tymor hir ar gyfer Y Rhyl. [Tom Booty i weithredu]*

6 ASESIAD O DDIGONOLRWYDD CYFLEOEDD CHWARAE SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol Twristiaeth, Hamdden ac Ieuencid y Rheolwr Ffyrdd o Fyw egniol a'r Rheolwr Rhaglen Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol a chyflwynodd yr Aseiad Digonolrwydd Chwarae drafft a'r Cynllun Gweithredu (a gylchredwyd yn flaenorol). Roedd Llywodraeth Cymru wedi gorchymyn bob awdurdod lleol i gyflawni aseiad a datblygu cynllun gweithredu yn amlinellu sut roeddynt yn bwriadu darparu cyfleoedd chwarae i blant a mynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth.

Roedd manylion o'r asesiad wedi ei darparu gan gynnwys y meysydd unigol a ystyriwyd a'r ymgynghoriad cynhwysfawr gyda'i bartneriaid mewnol ac allanol. Tynnwyd sylw aelodau at y themâu/blaenoriaethau allweddol oedd yn deillio o'r asesiad hwnnw oedd wedi eu cynnwys yn y cynllun gweithredu i fynd i'r afael â nhw yn ystod y cyfnod 2013 - 2014 ynghyd â chynlluniau i'r dyfodol ar gyfer 2014 a'r tu hwnt.

Yn ystod y drafodaeth, holodd aelodau a fyddai arian ar gael gan Lywodraeth Cymru (LIC) i fwrw ymlaen â'r cynllun gweithredu. Eglurodd y rheolwr Ffyrdd o Fyw Egniol (ALM) nad oedd unrhyw awgrym wedi ei roi ynglŷn â'r tebygolrwydd y byddai arian yn cael ei ddarparu ac roeddem yn aros am atborth yn dilyn cyflwyno'r asesiad fis diwethaf. Mae'r cyngor eisoes wedi ymrwymo arian o'i gyllideb ei hun i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu a fanylir yn 2013 - 2014.

Cyfeiriodd aelodau at ddarpariaeth chwarae yn eu cymunedau eu hunain a chodwyd y materion canlynol –

- diffyg neu absenoldeb darpariaeth chwarae mewn rhai ardaloedd gwledig/cefn gwlad
- anawsterau a gysylltwyd ag agor caeau chwarae ysgolion i'r gymuned ehangach (gan gynnwys plant cyn ysgol yn methu cael mynediad i ddarpariaeth yn ystod oriau ysgol a difrod a achoswyd i gaeau chwarae pan roeddent yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau penodol fel pêl-droed)
- diffyg cynlluniau chwarae/parth chwarae yn gweithredu ar draws y sir
- yr angen i dargedu gwaith marchnata cynlluniau chwarae/chwaraeon er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo digwyddiadau a chynyddu'r niferoedd oedd yn cymryd rhan
- annog cynghorau tref/cymuned i gyfrannu yn ariannol tuag at ddarpariaeth chwarae/chwaraeon, a chyflwr gwael rhywfaint o offer chwarae a phwysigrwydd cynnal a chadw.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau at fendithion cynnal yr asesiad a oedd yn darparu darlun cliriach ar gyfer Sir Ddinbych o safbwynt darpariaeth a dynodi meysydd i fynd i'r afael â nhw. Ymatebodd y swyddogion hefyd i sylwadau'r aelodau fel a ganlyn –

- roedd un o gamau'r cynllun yn ymwneud yn benodol ag ardaloedd gwledig a darpariaeth chwarae
- amlygwyd yr angen am ymagwedd wedi ei chyd-drefnu rhwng addysg, hamdden a chynghorau tref/cymuned i ddatblygu chwarae o fewn y trefi/cymunedau hynny
- cyfeiriwyd at ddarpariaeth chwarae/chwaraeon presennol ar draws y sir ac ymhelaethwyd ar gynlluniau ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol
- cytunwyd y dylid targedu gwaith marchnata digwyddiadau chwarae a chyfeiriwyd at lwyddiant a phoblogrwydd y sesiynau chwarae meddal diweddar a hyrwyddwyd drwy'r gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd
- roedd cynnal a chadw offer chwarae wedi'i gynnwys yn yr archwiliad.

Roedd y pwyllgor yn cefnogi'r asesiad a'r cynllun gweithredu ac yn awyddus i glywed ymateb LIC ynglŷn â hynny ac a fyddai LIC yn dyfarnu arian i weithredu ar y camau a nodwyd. Roedd Aelodau hefyd yn awyddus i dderbyn y cynllun gweithredu diwygiedig gydag amserlen ar gyfer cyflenwi camau gweithredu. O ganlyniad -

PENDERFYNWYD –

- (a) *yn amodol ar y sylwadau uchod gan yr aelodau, fod y pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynllun gweithredu yn cefnogi'r ymrwymiad i ddatblygu chwarae yn Sir Ddinbych, ac*
- (b) *dylid cyflwyno'r adroddiad gwybodaeth i'r pwyllgor a fydd yn cynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae a'r cynllun gweithredu ac a oedd arian pellach yn cael ei ddyfarnu gan Lywodraeth Cymru ynghyd â chynllun gweithredu diwygiedig a fyddai'n cynnwys amserlenni a gytunwyd arnynt ar gyfer gweithredu. **[Jamie Groves / Sian Bennett / Rhian Roberts i weithredu]***

Ar yr amser hwn (10.45 a.m.) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

7 ADRODDIAD CYNNYDD YMGYRCH ATAL BAW CŴN

Cyflwynodd y Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden a'r Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol adroddiad ar y cyd (cylchredwyd yn flaenorol) ynglŷn â chynnydd yr Ymgyrch Atal Baw Cŵn yn dilyn y lansiad meddal ym mis Chwefror.

Rhoddodd swyddogion fanylion ar y gweithgareddau a gyflawnwyd hyd yn hyn i fynd i'r afael â materion baw cŵn gan gynnwys yr ymgyrch farchnata sylweddol a'r ymdrech i addysgu pobl ynghyd â chamau gorfodi cadarn er mwyn lleihau'r nifer o achosion. Nodwyd a monitryd ardaloedd problemus allweddol a chynlluniwyd nifer o weithgareddau ategol ar gyfer y dyfodol. Dangoswyd cyflwyniad power point hefyd yn rhoi manylion deunyddiau hyrwyddo/sylw yn y wasg; y cynllun marchnata a mapio ardaloedd problemus. Rhoddwyd yr ystadegau diweddaraf a gasglwyd gan y System Reoli Gwasanaethau Cwsmeriaid a galwadau i'r rhif ffôn Rhadffôn hefyd. Roedd yr ymgyrch farchnata'n cynnwys ymagwedd fwydo fesul dipyn er mwyn parhau i atgyfnerthu'r neges ac annog cymunedau i gymryd rhan a rhoi gwybod am broblemau.

Rhoddodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd fanylion yr ymagwedd orfodi lle cyflogwyd Kingdom Security Services i fynd i'r afael â phroblemau yn wneud â baw cŵn ac ysbwriel. Roedd Heddlu Gogledd Cymru hefyd wedi gorchymyn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Rheolwyr Rhawd Gymunedol i roi rhybuddion cosb benodol a rhoi gwybod i'r cyngor am ardaloedd problemus.

Croesawodd aelodau'r Ymgyrch Atal Baw Cŵn fel ffordd ragweithiol o fynd i'r afael â baw cŵn o fewn y sir ynghyd â chamau gweithredu cadarn. Roedd y pwyllgor yn falch i nodi'r mesurau a gymerwyd i gynnwys y cyhoedd a'r atborth positif a dderbyniwyd ynghyd â'r cynnydd yn y nifer o ddigwyddiadau â riportwyd er mwyn canfod ardaloedd problemus a thargedu troseddwyd. Yn ystod y drafodaeth

cymerodd aelodau'r cyfle i gwestiynu'r swyddogion ynglŷn ag agweddau amrywiol o'r ymgyrch a gofynnwyd am fanylion pellach ynglŷn â chamau gorfodi a chostau cyffredinol. Codwyd y pryderon a'r sylwadau a ganlyn -

- yr angen i dargedu ardaloedd gwledig fel rhan o'r ymgyrch a chymryd camau gorfodi a phatrolau amlwg iawn yn yr ardaloedd hynny i atal troseddwyd
- amlygwyd problemau cyson yn Moel Famau a'r angen i godi'r mater gyda rheolwyr yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) i fynd i'r afael â'r mater, yn benodol gwrthwynebiad yr AHNE i osod biniau sbwriel yn yr AHNE
- trafferth dod o hyd i finiau cŵn mewn mannau problemus wedi ei nodi gan aelodau
- yr angen am batrolau gorfodi cudd a rhai amlwg iawn a swyddogion proffesiynol a chwrtais
- pryderon ynglŷn â chŵn strae ac achosion lle'r oedd perchnogion yn caniatáu i'w cŵn grwydro heb eu goruchwyllo
- bodolaeth hen arwyddion mewn cymunedau a allai achosi dryswch
- pwysigrwydd cynnwys y gymuned er mwyn cydweithio i fynd i'r afael â phroblemau baw cŵn
- yr angen i adolygu effeithiolrwydd yr ymgyrch a chostau cysylltiedig
- pryder fod nifer o rybuddion cosb benodol a roddwyd am ysbwriel yn llawer uwch na'r rhai a roddwyd ar gyfer baw cŵn
- trafodwyd o blaid gwneud rhagor o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol fel arf marchnata, a
- manylodd aelodau ar nifer o ardaloedd problemus yn eu cymunedau a fyddai'n elwa o gael biniau cŵn a chamau gorfodi a gwnaed ceisiadau am lenyddiaeth i'w rhannu yn eu hardaloedd.

Cydnabu swyddogion bwyntiau'r aelodau ac ymatebwyd fel a ganlyn -

- rhoddwyd gwybod am raglen o adleoli arwyddion a deunydd hyrwyddo o amgylch y sir gan dargedu ardaloedd problemus a monitro'r effaith
- ystyriwyd gorchmynion rheoli cŵn fel modd delio ag ardaloedd problemus penodol y gellid eu gweithredu mewn safleoedd fel Moel Famau/AHNE
- prynwyd 119 o finiau cŵn i'w gosod mewn ardaloedd a nodwyd gan aelodau
- cynhaliwyd cymysgedd o batrolau gorfodi cudd a rhai amlwg iawn fel oedd yn briodol yn dibynnu ar yr amgylchiadau
- roedd swyddogion gwarchod y cyhoedd eraill yn gyfrifol am gasglu cŵn strae a byddent yn croesawu unrhyw wybodaeth o'r natur hwnnw ac yn gweithredu arno
- ar ôl cyflwyno gorchmynion rheoli cŵn byddai adolygiad o arwyddion yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn berthnasol
- croesawyd cyfraniad y gymuned ehangach i fynd i'r afael â'r problemau hyn a rhoddwyd nifer o esiamplau o gynlluniau yn cynnwys ysgolion a chynghorau tref/cymuned y gellid eu hannog
- y bwriad i adolygu effeithiolrwydd yr ymgyrch ar ôl chwe mis ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar y canfyddiadau
- nodwyd yr ardaloedd problemus a nodwyd gan aelodau a cheisiadau am lenyddiaeth hyrwyddo.

O safbwynt costau a chynhyrchu incwm yn gysylltiedig â dyletswyddau gorfodi, rhoddwyd gwybod fod incwm rhybuddion cosb benodol yn cael eu rhannu rhwng Kingdom Security Services (KSS) £45 a'r Cyngor £30. KSS oedd yn adennill y dirwyon ond cyfeiriwyd achosion o beidio talu at y Gwasanaethau Cyfreithiol er mwyn eu herlyn. Clywodd swyddogion hefyd fod swyddogion KSS yn derbyn cyflogaeth ond fod elfen o'u tâl yn dibynnu ar berfformiad. Yn dilyn trafodaeth bellach -

PENDERFYNWYD –

- (a) yn amodol ar sylwadau'r aelodau uchod, y dylid derbyn a nodi'r adroddiad yn amlygu cynnydd ac effaith yr ymagwedd o fynd i'r afael â baw cŵn yn y sir, a
- (b) dylid derbyn adroddiad cynnydd pellach gan y pwyllgor mewn oddeutu chwe mis i gynnwys costau llawn yr ymgyrch a'r camau gorfodi, effaith yr ymgyrch, ystadegau, gwybodaeth am y nifer o achosion cyfreithiol a gafwyd/heb eu datrys, a chymhariaeth ar y nifer o rybuddion cosb benodol a roddwyd ar gyfer baw cŵn ac ysbwriel. **[Hywyn Williams / Jamie Groves / Gareth Watson / Vicki Shenton-Morris / Emlyn Jones i weithredu]**

Ar y pwynt hwn gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod a Chadeiriodd yr Is Gadeirydd, y Cyngorydd Huw Williams yr eitemau oedd yn weddill ar y rhaglen.

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (a gylchredwyd yn flaenorol) i aelodau adolygu rhaglen waith i'r dyfodol berthnasol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol. Roedd rhaglen waith i'r dyfodol ddrafft (Atodiad 1); Rhaglen waith i'r dyfodol y Cabinet (Atodiad 2), a Chynnydd ar Benderfyniadau Pwyllgorau (Atodiad 3) wedi'u cynnwys gyda'r adroddiad.

Rhoddodd y Cydlynnydd Archwilio wybodaeth ar newidiadau i'r rhaglen waith ers ei pharatoi a thrafododd aelodau'r newidiadau gyda swyddogion a chodwyd nifer o faterion roeddent yn dymuno eu harchwilio yn y dyfodol. Cadarnhaodd y pwyllgor yr ychwanegiadau a ganlyn -

- Mai - Ailstrwythuro'r Gwasanaethau Adfywio, Cefnogi Busnes a Thwristiaeth
- Gorffennaf – Ailstrwythuro Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol ac ehangu cwrpas yr adroddiad ar Gyflwr Priffyrdd y Sir i gynnwys gwaith oedd angen yn dilyn yr achos o eira ym mis Mawrth/Ebrill 2013
- Medi – Strategaeth Gofod Cyhoeddus a Threfniadau Clirio Eira
- Hydref – Ymgyrch Atal Baw Cŵn, a
- cadarnhau eu penderfyniad blaenorol i gael adroddiad gwybodaeth ddilynol ar yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae a'r cynllun gweithredu.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen waith i'r dyfodol fel y manylwyd yn Atodiad 1, yn amodol ar yr uchod, a'i chymeradwyo. **[Rhian Evans i weithredu]**

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Cyfeiriodd y Cynghorydd Joe Welch at ei bresenoldeb yn y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion diweddar ac roedd yn falch i sôn fod y ddwy ysgol a drafodwyd, Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy ac Ysgol Clawdd Offa, Prestatyn yn perfformio'n dda.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Rhys Hughes at ei gysylltiad gyda Choleg Glannau Dyfrdwy gan roi gwybod bod yr uno gyda Choleg Iâl yn symud yn ei flaen yn dda. Nodwyd y byddai'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn ystyried datblygiad presennol a datblygiadau i ddod mewn perthynas â Grŵp Coleg Glannau Dyfrdwy (Coleg Cumbria) ym mis Medi.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiadau llafar.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05 p.m.

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	23 Mai 2013
Swyddog Arweiniol:	Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Arweiniol dros Ddatblygiad Economaidd/ Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Adfywio Strategol
Teitl:	Cynlluniau Tref ac Ardal

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â monitro perfformiad y Cyngor wrth ddarparu ei Gynlluniau Tref a'u manteision i'r trefi eu hunain a'r cymunedau o'r hamgylch.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rheswm dros wneud yr adroddiad hwn ydi amlygu unrhyw lithriant wrth ddarparu'r Cynlluniau a'r camau gweithredu i wella perfformiad a chynorthwyo'r Cyngor i ddod yn nes at ei gymunedau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried a darparu'r sylwadau ar y cynnydd a wnaed gyda darparu Cynlluniau Tref yn eu blwyddyn gyntaf.

4. Manylion yr adroddiad

Cadarnhawyd Cynlluniau Tref ar gyfer saith anheddiad mwyaf y sir, heblaw am y Rhyl, gan y Cabinet rhwng Rhagfyr 2011 a Mawrth 2012 yn ystod tymor y Cyngor Sir blaenorol. Yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2012, gwnaed cyflwyniadau i'r pum Grŵp Ardal Aelodau perthnasol i alluogi aelodau newydd eu hethol ymgyfarwyddo â chynnwys y Cynlluniau Tref a gymeradwywyd yn flaenorol ac i ddechrau adolygu eu cynnwys er mwyn sicrhau eu bod dal yn ddilys ac i alluogi ymgorffori unrhyw flaenoriaethau ychwanegol.

Datblygwyd proses ar gyfer monitro perfformiad y Cynlluniau Tref ac Ardal ar y cyd â'r gwasanaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad i ategu at y trefniadau adrodd ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Mae adroddiadau perfformiad manwl yn cael eu cyflwyno i'r Grwpiau Ardal Aelodau bob chwarter sy'n amlygu'r hyder darparu ynghlwm i bob un o'r camau gweithredu byw yn y Cynlluniau Tref ac Ardal perthnasol gan ddefnyddio'r un statws Coch-Oren-Melyn-Gwyrdd a fabwysiadwyd yn y fethodoleg rheoli prosiect corfforaethol. Cyflwynwyd yr adroddiad cyntaf am y chwarter a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 i'r rownd cyfarfodydd Grwpiau Ardal Aelodau a ddaeth i ben yn ddiweddar. Bydd yr wybodaeth yn yr adroddiadau Tref ac Ardal hyn yn cael eu cyfuno a'u cynnwys yn yr Adroddiadau Perfformiad

Chwarterol a gyflwynir i'r Cabinet. Mae'r adroddiad cyfun am y chwarter a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad hwn. Mae sylwadau ynglŷn â chymau gweithredu unigol sydd â statws coch neu oren wedi ei atodi yn Atodiad B. Mae crynodeb ar y prif ganlyniadau am y flwyddyn gyntaf y Cynlluniau ynghlwm fel Atodiad C.

Cadarnhawyd dyrannu nawdd o'r gyllideb ar gyfer gweithredu'r flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer gwella'r economi lleol gan y Cabinet ar 15 Ionawr. Mae hyn wedi galluogi symud ymlaen â'r camau gweithredu blaenoriaeth a nodwyd i'w gweithredu'n gynnar y gellid ond eu darparu o fewn amserlen resymol gyda chefnogaeth ariannol o'r gyllideb hon. Bydd y camau gweithredu hyn yn ymddangos yn yr adroddiadau chwarterol nesaf i'r Grwpiau Ardal Aelodau a byddant yn cael eu cyflwyno i'r rownd o gyfarfodydd a fydd yn cael eu cynnal ym mis Gorffennaf.

Nid oedd y Cynlluniau Tref a gymeradwywyd hyd yma yn mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau cymunedau llai a mwy gwledig. Cytunodd y Cabinet ar drefniadau manwl ar gyfer datblygu Cynlluniau Tref presennol yn Gynlluniau Tref ac Ardal ar 16 Ebrill. Mae gwaith wedi dechrau'n ddiweddar ar y broses hon gyda'r rownd gyntaf o gyfarfodydd ar gyfer Cefnogwyr Cynlluniau Tref ac Ardal ac aelodau wardiau wedi'u trefnu ar gyfer y mis hwn.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi trefi a chymunedau bywiog ac economaidd weithgar fel bod yn hanfodion economi leol gryf. Bydd gweithredu Cynlluniau Tref ac Ardal yn cefnogi gweithredu'r flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer gwella'r economi leol a bydd hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor i ddiwallu ei uchelgais o fod yn nes at y gymuned.

6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ers yr adroddiad blaenorol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ynglŷn â Chynlluniau Tref, gwnaethpwyd dyraniad cyfalaf o £200,000 o'r cynllun cyfalaf ar gyfer 2013/14 ar gyfer gwella'r economi leol. Daw hyn â'r cyfanswm sydd ar gael ar hyn o bryd i £1.55m, gyda £0.6m wedi ei ymrwmo i flaenoriaethau cynnar gan y Cabinet ar 15 Ionawr, gan adael balans o £0.95m i'w ddyrannu.

Y bwriad yw y bydd prosiectau Y Rhyl yn Symud Ymlaen yn cael eu hariannu'n bennaf un ai o'r dyraniad corfforaethol o £175,000 ar gyfer adfywio a wnaed yn 2011/12, neu yn achos prosiectau ar raddfa fwy, trwy gynigion penodol i'w hystyried gan y Grŵp Buddsoddi Strategol cyn i'r Cabinet benderfynu arnynt. Fodd bynnag, efallai bydd ychydig o alw am ddyraniad nawdd Cynlluniau Tref ac Ardal ar gyfer prosiectau Y Rhyl yn Symud Ymlaen.

7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Mae'r Grŵp Cydlyn Cynlluniau Tref wedi trafod y cynigion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Roedd y Cynlluniau Tref gwreiddiol yn destun ymgynghori sylweddol

a chytunodd y Cabinet ar y trefniadau ar gyfer ymgynghori yn ystod datblygiad Cynlluniau Tref ac Ardal ar 16 Ebrill.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ddim yn berthnasol

9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risgiau sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau Tref yw:

- methu darparu'r blaenoriaethau a nodwyd i'w cwblhau ym mlynnyddoedd cynnar y Cynlluniau Tref, a
- methu mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau cymunedau llai a mwy gwledig.

Mae'r risg o beidio darparu'r camau gweithredu a nodwyd i'w cwblhau ym mlynnyddoedd cynnar Cynlluniau Tref wedi cael ei ostwng trwy greu rolau Cefnogwyr Cynllun Tref ac Ardal i wthio darparu'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynlluniau Tref ac Ardal perthnasol a thrwy ddyrannu cyllidebau i alluogi ariannu camau gweithredu blaenoriaeth na fyddai fel arall yn cael eu darparu trwy gyllidebau gwasanaeth presennol.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor wneud unrhyw beth y creda sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.

Mae Erthyglau 6.1, 6.3.2(c) a 6.3.4(b) yn amlinellu pwerau Archwilio mewn perthynas â chynlluniau tref, y sir a'i breswylwyr, a pherfformiad y Cyngor o ran darparu ei amcanion.

Swyddog Cyswilt:

Rheolwr Adfywio Strategol

Ffôn: 01824 706860

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Quarterly performance report for all Town Plans

Report for the quarter ending 31st March 2013

Town	Percentage of live actions for the quarter with a particular delivery confidence status										
	10	20	30	40	50	60	70	80	90	100	
Prestatyn	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green
Rhuddlan	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Orange	Orange
St Asaph	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green
Denbigh	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Yellow	Yellow
Ruthin	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Yellow	Yellow
Corwen	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Orange	Orange
Llangollen	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Yellow	Yellow

Key to delivery confidence status

Red	Successful delivery of the project / programme appears to be unachievable. There are major issues on project / programme definition, schedule, budget required quality or benefits delivery, which at this stage does not appear to be manageable or resolvable. The project/programme may need re-base lining and/or overall viability re-assessed.
Orange	Successful delivery of the project/programme is in doubt with major risks or issues apparent in a number of key areas. Urgent action is needed to ensure these are addressed, and whether resolution is feasible.
Yellow	Successful delivery appears probable but significant issues already exist requiring management attention. These appear resolvable at this stage and if addressed promptly, should not present a cost/schedule overrun.
Green	Successful delivery of the project/programme to time, cost and quality appears highly likely and there are no major outstanding issues that at this stage appear to threaten delivery significantly

Actions with red or orange status

Rhuddlan - one of the actions requested was to provide a bilingual street name sign for Tan yr Eglwys Road at the entrance to the town centre to enhance the sense of place when arriving in a historic Welsh town. The street names which can be used are determined by the entry in the gazetteer which in this particular case is as already shown on the sign. Alternative means of conveying the character of the town at the entrance to the town centre are being investigated.

Denbigh - school students had suggested that changes to the town's retail offer and the opening times of shops could meet demand from younger customers which was currently unfulfilled in the town but subsequent discussions with the Business Group indicated that retailers already present in the town were unlikely to be able to

Ruthin - community information pilot for older people (project from former People & Places Board) – no volunteers came forward to deliver the project and there was no demand for the service

Corwen - study of the feasibility of the further extension of the railway to terminate nearer to the town centre than the current project – feasibility study on hold pending the completion of the works which are currently on site to extend the railway to the proposed Corwen East platform and identification of funding mechanism for delivering the capital investment required

Highlights for the period ended 31st March 2013

Prestatyn

Stadium retail development completed with seven new national chains in the town and two further units let but not yet trading

Town team established with representation from the local authorities, businesses, community organisations and the High School

Support provided to the Business Forum to deliver a programme of events to animate the High Street

Old station buildings renovated by Stadium and let to a local business

Seafront environmental improvements completed to enhance the visitor experience

Modernisation of bus station completed to provide improved waiting facilities for users and safer vehicle movements

Off road route for walkers completed between the view point car park and Hillside Gardens to improve visitor experience and safety

Rhuddlan

Dropped kerbs provided between the Council car park and the pub to improve the experience for visitors with buggies and wheelchairs

Support provided for the establishment of a new Tourism Association jointly with St Asaph where there had been no business representative organisation previously

St Asaph

New allotments provided at Roe Plas

Support provided for the establishment of a new Tourism Association jointly with Rhuddlan where there had been no business representative organisation previously

Consultation initiated about traffic orders on Mill Street to restrict parking and improve traffic flow and safety

City trail board installed at Bowling Green car park to provide information about the city to visitors – hitherto only information about other locations in the Vale had been provided

Denbigh

Merger of primary schools in Upper Denbigh complete thereby supporting improvements in educational attainment

New Communities First partnership approved for North Denbighshire to include Upper Denbigh thereby enabling the Upper Denbigh ward to access Communities First funding for the first time

Museum feasibility study complete which has enabled the Museums Group to seek a suitable location for the museum and make applications for funding for the project

Public consultation about a north-south cycle route for the Vale of Clwyd arranged which will provide feedback which will inform the development of the route

Pop ups obtained to be placed in empty shop windows to improve their appearance and encourage new tenants

Renovation of a building in Back Row to accommodate a deli with assistance from the Townscape Heritage Initiative complete to enhance the town centre retail offer

Funding obtained from Cadw to enhance the links between the town and the castle thereby improving the experience of visitors to the town

Assistance provided to shop owners to improve the appearance of their premises for the Eisteddfod Proclamation Ceremony to give a good impression of the town to prospective visitors to the Eisteddfod

Ruthin

Approval granted for review of primary education provision in Ruthin and surrounding communities

Construction of new facilities at Ruthin Leisure Centre commenced

Town Team established to enable business, tourism and events groups to work together in a more co-ordinated way

Produce Market relocated to St Peter's Square to animate the town centre and increase footfall

Planning progressed for the art trail which will connect the Craft Centre with the town centre and thereby encourage the substantial numbers of visitors to the Craft Centre to see other parts of the town

Pedestrian signage installed to enable visitors using car parks to easily find the routes to the town centre thereby increasing footfall in the central retail area

"Croeso" workshop held for businesses to improve customer service

Redundant signage removed and missing sign replaced to improve the appearance of the town

Cae Ddol car park resurfaced and toilets repaired to improve visitor experience

Phase I of one way system introduced to improve traffic circulation in town centre and on street parking

Corwen

Ministerial approval obtained for review of primary education in the Edeyrnion area thereby supporting improvements in educational attainment

New area school for Cynwyd and Llandrillo established thereby supporting improvements in educational attainment

Federated governing bodies created for Ysgol Betws GG and Ysgol Bro Elwern, and Ysgol Caer Drewyn and Ysgol Carrog thereby supporting improvements in educational attainment

Feasibility study to find out future needs for community buildings and spaces commenced which will help to ensure that the town has sustainable community facilities in the future

Master plan for further extension of the railway closer to the town centre complete which will enable the co-ordination of the land required for the various capital investments proposed for the area around the Common

Undeveloped employment allocations at Tyn y Llidiart retained in deposit Local Development Plan which would enable new jobs to be accommodated in businesses wanting to be based in the town

Appearance of the untidy site next to the Royal Oak improved to enhance the impression of the town gained by visitors travelling on the A5

Dialogue commenced with Rhug Estate about how the substantial numbers of people who visit their premises can also benefit the businesses in the town centre thereby enhancing the viability of town centre businesses

Llangollen

Town Hall transferred to the Town Council thereby enabling a wider range of community activities to take place in the building

Consultation on a proposal by the Health Board to relocate the Health Centre to the site of the derelict former Woodlands Hotel thereby providing a solution to a prominent eye sore

Planning permission granted which would enable the relocation of the Dobson & Crowther print works and open up the Cilmedw employment site for further development

Consultation completed about relocating the open air market to free up additional parking spaces in the town centre thereby increasing footfall on market days. The result of the consultation is that the market will stay in its existing location but the car park would be resurfaced and re-lined to maximise use on market days.

Agreement reached with owners about the improvement of prominent long standing eye sore properties which detract from the appearance of the town centre and present a poor image to visitors

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	23 Mai 2013
Aelod Arweiniol:	Arweinydd y Cyngor
Awdur yr Adroddiad:	Pennaeth Gwasanaethau Tai a Chymunedol
Teitl:	Ailstrwythuro'r Gwasanaethau Adfywio, Cefnogi Busnes a Thwristiaeth

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am y rhesymeg a'r broses ar gyfer Ailstrwythuro'r Gwasanaethau Adfywio, Cefnogi Busnes a Thwristiaeth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn â'r rhesymeg dros newid, y siart strwythur a'r broses a ddilynwyd hyd yn hyn ac i'w dilyn i gwblhau'r broses ailstrwythuro.

3. Beth yw'r argymhellion?

Bod Aelodau'n ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn rhoi adborth i'r Pennaeth Tai a Datblygiad Cymunedol a Phennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden ynglŷn â sut mae'r cynigion yn yr adroddiad yn ateb eu disgwyliadau a dyheadau ar gyfer y gwasanaeth.

4. Manylion am yr adroddiad – Yr achos dros newid.

Ym Mehefin 2012, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fersiwn derfynol o'i bapur "Cyngor Ardderchog yn Agos at ei Gymuned". Yn y papur hwn, rhoddodd fanylion am lawer o wasanaethau'r cyngor a gydnabyddir ymhlith y gorau yng Nghymru. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd rhagoriaeth ym mhob rhan o'r sefydliad, a'n bwriad yw bod yn ardderchog ym mhopeth a wnawn.

Nodwyd Tair Egwyddor arweiniol sy'n greiddiol i'r ffordd rydym yn gweithio:

- **Perfformiad uchel**
- **Eglurder**
- **Atebolrwydd**

Mae'r papur yn mynd ymlaen i nodi:

"Mae gwaith y cyngor ar adfywio a rhoi cymorth i fusnesau'n llawer gwell na'r hyn ydoedd ychydig o flynyddoedd yn ôl, ond fe erys yn annatblygedig. Mae'r hollt 'strategol / gweithredol' wedi gweithio'n eithaf da, ond nid yw hollti rheolaeth gyffredinol y timau hyn wedi bod mor llwyddiannus." Nodwyd y ffordd yr ymdriniwyd â Thwristiaeth hefyd ar gyfer gwella, gyda'r Prif Weithredwr yn ceisio swyddogaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau gryfach.

Ailadroddwyd gweledigaeth y Prif Weithredwr ar gyfer newid a thrawsffurfio gan Arweinydd y Cyngor a ddywedodd “ Mae’n rhaid i ni ddangos mwy o arweinyddiaeth ac ysbrydoli hyder mewn busnesau presennol a’r dyfodol....Mae’n rhaid i ni chwarae mwy o ran gyda’r gymuned fusnes leol” ac aeth ymlaen i ddweud “Mae gennym ddiwydiant twristiaeth anferth, ond a ydym yn gwneud y gorau o’r hyn sydd gennym?”.

Mewn ymateb i’r heriau hyn, gwnaethpwyd adolygiad gwasanaeth o’r Tîm Adfywio, y Rhyl yn Symud Ymlaen (RGF) a Chefnogi Busnes a Thwristiaeth ddiwedd haf 2012 a oedd yn cynnwys adolygiad o ffeiliau personél a chyfarfodydd un i un gyda 23 o’r 29 staff a oedd yn trosglwyddo i’r gwasanaeth, a oedd yn cynnwys rheolwyr o bob adain. Trefnwyd cyfarfodydd un i un ynghyd â gweithdy blaenoriaeth gwasanaeth, a chyfarfodydd tîm gyda’r Pennaeth Tai a Datblygiad Cymunedol yn bresennol. Dyma ganfyddiadau allweddol o’r adolygiad:

- Mae strwythurau tîm wedi’u datblygu’n wael, sy’n arwain at gyfathrebu gwael a hyblygrwydd cyfyngedig wrth ddefnyddio staff
- Mae gan y gwasanaeth broffil eithaf isel ac nid ydyw ar hyn o bryd yn dangos brand cryf ar gyfer y cyngor
- Nid yw monitro perfformiad wedi ei ddatblygu’n llawn ar draws meysydd gwasanaeth, gydag ychydig o gyfle i ddangos canlyniadau
- Mae diffyg mewn hyrwyddo gwasanaeth – nid oes dull trefnus i gadw canlyniadau cadarnhaol a rhannu’r rhain yn fewnol ac allanol
- Nid yw’r cyngor yn agos at fusnesau
- Teimlodd staff nad oedd yr hollt ar draws gwasanaethau a ddigwyddodd 18 mis yn ôl rhwng agweddau gweithredol a strategol wedi gweithio’n dda iawn yn gyffredinol, er gwnaethpwyd pob ymdrech i wneud iddi weithio.
- Fe wnaeth y staff a gafodd gyfweiliad siarad am sut oedd gwasanaethau’n dameidiog, yn enwedig mewn perthynas â’r swyddogaeth dwristiaeth

Yn ogystal ag ymgysylltu â staff, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau budd-ddeiliaid pwysig i gael safbwyntiau ehangach ar sut oedd y gwasanaeth yn perfformio ac yn cael ei ystyried. Felly, cynhaliwyd Adolygiad o’r Rhyl yn Symud Ymlaen (RGF) a welodd yr angen am fwy o gydlyniant ac integreiddiad o gyfleoedd datblygu economaidd ac adfywio drwy alinio RGF, Strategaeth Dinas y Rhyl a rhaglen Cymunedau’n Gyntaf yn effeithiol.

Awgrymodd adborth o’r Gweithdy ar gyfer Aelodau ar Ddatblygu’r Economi bod angen i swyddogaeth datblygu’r economi dyfu sectorau preifat a thrydydd sector, gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol Sir Ddinbych, darparu cefnogaeth well i fusnesau a gwneud y gorau o fuddsoddiad drwy Ewrop a Ffrydiau Ariannu eraill.

Datblygwyd Bwrdd Seinio Sector Preifat hefyd a nododd nad ydyw’n hawdd gwneud busnes gyda’r Cyngor gan ei fod yn gallu bod yn gymhleth, biwrocraidd ac yn adweithiol.

Mae’r gwaith a wnaethpwyd mewn perthynas â ffurfio Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Cyngor Sir Ddinbych hefyd wedi bod yn ddylanwadol wrth ddatblygu’r strwythur. Mae’r weledigaeth o “gydweithio i adeiladu lle, lle gall busnesau newydd a phresennol ffynnu, ein trefi a’n cymunedau lewyrchu, a’n

preswylwyr yn weithredol ac yn mwynhau bywyd o ansawdd da” angen newid dull ac ail-alinio adnoddau i ddarparu’r blaenoriaethau hyn.

Cododd y ffactor pwysig olaf wrth ffurfio’r cynlluniau ar gyfer y strwythur adfywio o ganlyniad i ddogfen ymgynghori “Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid” a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn Hydref 2012 a amlinellodd y newidiadau allweddol yn ei ddull i adfywio, sef :

- Canolbwyntio ar **ganlyniadau** sy’n ymwneud â chymunedau llwyddiannus, sy’n dysgu ac yn iachach, gan wneud cysylltiadau â rhaglenni cydategol Llywodraeth Cymru
- I gael eu harwain gan dair **egwyddor** allweddol o (i) waith partneriaeth (ii) dull strategol (yn seiliedig ar dystiolaeth, yn canolbwyntio ar bobl a lle, cynllunio gofodol ac ati) a (iii) cynaliadwyedd (cynnwys cymunedau, cynllunio ar gyfer y tymor hir ac ati)
- Ymrwymiad wedi’i adnewyddu i **weithio ar draws-portffolios** yn y Llywodraeth
- **Llywodraethu cryfach** - gyda strwythur darparu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eglur.

Tra bod y cynnig uchod yn berthnasol i strategaethau adfywio cenedlaethol, mae’r ffocws ar ganlyniadau, gweithio mewn partneriaeth, mabwysiadu dull strategol, gweithio ar y cyd ar draws portffolios, a datblygu llywodraethu cryf a mesurau atebolrwydd yr un mor bwysig, dilys a chymwys ynghylch sut rydym yn rheoli a darparu blaenoriaethau adfywio a datblygiad economaidd yn lleol.

Felly i orffen, ar nifer o lefelau, ni fyddai’r strwythur presennol, canolbwynt sgiliau a dyraniad adnoddau yn addas ar gyfer y diben nac yn gallu darparu’r rhaglen uchelgeisiol o Adfywio a Datblygu busnes fel y cynhwysir yn y Cynllun Corfforaethol a’r Strategaeth Uchelgais Economaidd sy’n datblygu.

Strwythur Newydd (ceir copi yn Atodiad 1 er gwybodaeth)

Wrth ddatblygu’r strwythur newydd i Adfywio, edrychwyd ar nifer o awdurdodau, gan gynnwys Sir y Fflint, Wrecsam, Conwy, Sir Gaerfyrddin, Ynys Môn a Chyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer. Ymhellach at hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda’r staff sy’n golygu bod rhai newidiadau sylweddol i’r strwythur terfynol.

